



Cynllun Iaith Cymraeg

Adroddiad Blynyddol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Dyma'r ail adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Cymeradwywyd y cynllun ym Mawrth 2006 ac fe'i lanswyd yn ffurfiol ar 13 Gorffennaf 2006. Mae'n cwmpasu ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac yn hyrwyddo'r egwyddor o drin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth 2007 a Mawrth 2008 i gydymffurfio â'n Cynllun.
- 1.2 Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n atebol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym yn gyfrifol am weinyddu'r gyllideb cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr a sicrhau bod rhai bregus a'r rhai sy'n cael eu hallgau yn gymdeithasol yn cael mynediad at gyfiawnder trwy ariannu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori ar draws Cymru a Lloegr. Mae gweinyddiaeth cymorth cyfreithiol yng Nghymru yn cael ei gynnal o'n swyddfeydd yng Nghaerdydd a Chaer.

2. Proses Fonitro

- 2.1 Mae Swyddog Iaith Gymraeg a benodwyd ac sy'n gweithio yn ein swyddfa yng Nghaerdydd yn gyfrifol am fonitro cynnydd ein Cynllun o ddydd i ddydd. Yn ychwanegol, cynhelir cyfarfodydd chwarterol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg lle mae'r cynnydd yn cael ei drafod yn anffurfiol gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno iddynt yn flynyddol yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Cynllunio Gwasanaeth a Chyflawni Gwasanaeth
- Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru
- Hunaniaeth Gorfforaethol y Sefydliad
- Cyhoeddusrwydd
- Recriwtio a Staffio
- Gweithredu a Monitro'r Cynllun

3. Cynllunio a Chyflawni'r Gwasanaeth

- 3.1 Mae'r arfer o gyfeirio at y Swyddog Iaith Gymraeg wedi parhau yn gyson o ran mentrau newydd, cynllunio a pholisi yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn ychwanegol, sefydlwyd cyfarfodydd chwarterol gyda'r personél sy'n gyfrifol am fentrau newydd i drafod meini prawf ein Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys yr holl brif fudd-ddeiliaid yn y Comisiwn, yn benodol y penaethiaid adrannau a'r arweinwyr prosiect ac mae'n sicrhau bod gofynion y cynllun yn cael eu hystyried yn gyson. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal Asesiad Effaith ar gyfer unrhyw weithdrefn newydd sy'n cael ei weithredu ac mae gofynion yr Iaith Gymraeg wedi eu cynnwys yn yr hyfforddiant Asesiad Effaith a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2008 i greu system gadarn.
- 3.2 Yn ystod Ebrill 2007-Mawrth 2008 cyflwynodd y Comisiwn Ganolfan Alwadau Cyfreithiwr yr Amddiffyn y bydd yr heddlu yn cysylltu â hi pan fydd rhywun yn y ddalfa wedi gofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol wyneb yn wyneb yng ngorsaf yr heddlu. Erbyn hyn mae'r galwadau hyn yn cael eu hanfon trwy un ganolfan

alwadau ac mae darparu gwasanaeth yn y Gymraeg wedi cael ei ymgorffori yn y broses hon. Bydd yr heddlu yn dynodi i'r DSCC a yw'r cleient wedi gofyn am gynrychiolaeth gan gyfreithiwr trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r ganolfan alwadau wedi cael rhestr a luniwyd gan y Comisiwn o gyfreithwyr sy'n siarad Cymraeg y gellir eu hanfon i'r orsaf heddlu. Pan fydd y mater yn ymwneud â throedd lle bydd cyngor dros y ffôn yn cael ei roi yn hytrach na bod cynrychiolydd yn mynychu'r swyddfa heddlu (mae hyn yn berthnasol i droseddau llai difrifol a nodir gan reoliadau sy'n berthnasol i achosion yng Nghymru a Lloegr) mae panel o gyfreithwyr Cymraeg eu hiaith wedi cael ei sefydlu gan y Comisiwn i ddarparu'r gwasanaeth hwn a bydd y ganolfan alwadau yn cysylltu ag aelod o'r panel hwnnw.

- 3.3 O ran cymorth cyfreithiol sifil, mae'r gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol eisoes yn darparu cyngor dros y ffôn i alwyr trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent hefyd yn y broses o lansio cynllun treialu i ddarparu cyngor teuluol wyneb yn wyneb i gleientiaid pan na ellir ymdrin â'r mater dros y ffôn. Er mwyn sicrhau y gellir defnyddio cyfreithiwr sy'n siarad Cymraeg pan fydd gofyn hynny, rydym wedi llunio cronfa ddata o gyfreithwyr sy'n siarad Cymraeg yr ydym wrthi yn ei gwirio. Bydd hon yn bwydo i mewn i'r cynllun treialu ac yn sicrhau y bydd darparydd Cymraeg ar gael pan fydd cleient yn gofyn am hyn.
- 3.4 Mae cyfarfod partneriaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei sefydlu i hyrwyddo gweithio ar draws busnesau. Bydd hyn yn cynnwys Cyfarwyddwr Cymru'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a chynrychiolwyr o Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (HMCS) a'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwy'r Cenedlaethol (NOMS) ymhlith eraill. Bydd y ddarpariaeth Gymraeg yn uchel ar yr agenda a chymerwyd camau eisoes i hyrwyddo gweithio ar draws busnesau. Er enghraifft, rydym eisoes yn gweithio gyda HMCS i ddarparu hyfforddiant Cymraeg i'r staff.
- 3.5 Yn ystod y cyfnod dan sylw, fe wnaeth y gweithiwr achos Cymraeg ei iaith a recriwtiwyd yng Ngorffennaf 2006 adael y Comisiwn ond penodwyd rhywun arall yn Nhachwedd 2007 gyda chyfnod o ddeufis pan oedd y ddau aelod o staff yn cydweithio. Roedd hyn yn sicrhau parhad yn y gwasanaeth tra roedd yr aelod newydd o staff yn cael hyfforddiant yn ei waith.

4. YMDRIN Â'R CYHOEDD YNG NGHYMRU

4.1 Ffurflenni

- 4.1.1 Ers yr adroddiad diwethaf, mae'r holl ffurflenni cais cymorth cyfreithiol sifil a throeddol sydd i'w llenwi gan y cleient wedi cael eu cyfieithu ac maent ar gael ar dudalennau lleol Cymru ar wefan y Comisiwn. Gall cwmnïau hefyd archebu stoc o gopiâu papur o rai ffurflenni trosedd (CDS 14, 15 a 16) ac mae fersiynau dwyieithog o'r ffurflenni hyn ar gael. Mae'r ffurflenni'n cael eu diweddarau bob Ebrill a Hydref ac maent yn cael eu cyfieithu'r un pryd i'r Gymraeg ac maent ar gael trwy'r dulliau priodol.

- 4.1.2 Gwelwyd anawsterau yn y gorffennol ynglŷn â'r broses hon o ran y ffurflenni trosedd gan eu bod yn cael eu trin gan adran ar wahân i'r un sy'n ymdrin â ffurflenni sifil. Oherwydd newidiadau mewn personél, nid oedd yr unigolyn oedd yn gyfrifol am ddiweddaru'r ffurflenni hyn yn Hydref 2007 yn ymwybodol o'r angen i ddarparu diweddariadau i'r fersiwn Gymraeg ar yr un pryd. Felly nid oedd y ffurflenni ar gael yn Gymraeg hyd Ragfyr 2007. Ers hynny cymerwyd camau i drosglwyddo cyfrifoldeb am y ddwy set o'r ffurflenni hyn i un adran ac yn y diweddariad yn Ebrill 2007 roedd y fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r ffurflenni ar gael ar yr un pryd. Rhagwelir y bydd diweddariadau yn y dyfodol (yn Ebrill a Hydref fel arfer) yn parhau i fod ar gael ar yr un pryd a bydd y swyddog iaith Gymraeg yn parhau i fonitro hyn yn ofalus.
- 4.1.3 Cyflwynir ceisiadau troseddol gan gyfreithwyr yn uniongyrchol i'r llys ynadon perthnasol sy'n dyfarnu ar y ceisiadau hyn. Nid yw'n bosibl felly i'r Comisiwn roi adroddiad ar y nifer o achosion a gyflwynwyd yn Gymraeg yn y maes hwn.
- 4.1.4 Yn ystod y cyfnod, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau sifil yn Gymraeg ond bydd rhagor o waith yn cael ei wneud dros y deuddeng mis nesaf i ystyried sut y gellir hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

4.2 Gohebiaeth

- 4.2.1 Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, derbyniwyd un darn o ohebiaeth Cymraeg ac ymatebwyd iddo ar yr un diwrnod. Roedd hyn felly yn cyrraedd y targed 5 diwrnod ar gyfer ymdrin â gohebiaeth sy'n berthnasol i'r holl ohebiaeth sy'n dod i mewn.
- 4.2.2 Ni dderbyniwyd unrhyw e-bost Cymraeg yn ein e-bost cyffredinol am y cyfnod dan sylw. Mae unrhyw e-bost a dderbyniwyd yn Gymraeg wedi ei gyfeirio yn uniongyrchol i gyfeiriad e-bost penodol unigolyn wedi cael ymateb cyn pen y targed 5 diwrnod naill ai trwy ymateb gwirioneddol neu ateb awtomatig pan na fydd yr unigolyn ar gael yn dynodi pryd y bydd yn ôl ac unrhyw drefniadau cyswllt gwahanol. Nid yw e-bost trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gofnodi yn arferol ar hyn o bryd a bydd camau yn cael eu cymryd i gynnwys y rhain i gyfeirio atynt yn y dyfodol.
- 4.2.3 Fel y nodir uchod, bydd rhagor o waith i hyrwyddo'r cyfleuster hwn yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod nesaf.

4.3 Galwadau Ffôn

- 4.3.1 Mae llinell benodol trwy gyfrwng y Gymraeg yn swyddfa Cymru ar gael rhwng 9.00a.m. a 5.00p.m. i'r rhai sy'n galw ac am gynnal eu busnes trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir gweld nifer y galwadau a dderbyniwyd dros y deuddeng mis diwethaf yn Atodiad A.
- 4.3.2 Yn ystod Mai 2007 trosglwyddodd y llinell ddyletswydd Saesneg i swyddfa Bryste. O'r blaen pan oedd y galwadau yn cael eu trin yng Nghaerdydd roedd neges ar y llinell Saesneg yn hysbysebu argaeledd y gwasanaeth Cymraeg. Yn ystod Mai i Awst 2007 nid oedd y neges hwn ar y rhif teleffon newydd oedd yn

cael ei weithredu gan swyddfa Bryste ac fe ystyrir bod hyn wedi cyfrannu at y lleihad yn y nifer o alwadau i'r llinell Gymraeg. Fe wnaethom ddynodi'r broblem hon a hysbysu swyddfa Bryste y dylent ail-recordio'r neges cychwynnol i gynnwys cyfeiriad at argaeledd gwasanaeth teleffon Gymraeg. Ers i'r neges gael ei newid mae'r nifer o alwadau ffôn wedi cynyddu'n sylweddol. 16 oedd cyfartaledd y galwadau a dderbyniwyd bob mis yn ystod y deuddeng mis dan sylw. Fodd bynnag, o ddiystyru'r cyfnod pan nad oedd y llinell Gymraeg yn cael ei hysbysebu, dros y saith mis arall roedd cyfartaledd y galwadau yn 22 y mis.

4.3.3 Derbyniwyd ymateb cadarnhaol gan ddarparwyr am y llinell Gymraeg. Fe wnaethant ddynodi eu bod yn derbyn gwasanaeth gwell o ddefnyddio'r llinell hon gan nad oes ciw fel arfer ac roeddent yn croesawu'r ddarpariaeth.

4.3.4 O ddadansoddi'r galwadau a dderbyniwyd hyd yn hyn gwelir bod mwyafrif ein galwadau yn dod gan gyfreithwyr yn hytrach nag aelodau o'r cyhoedd sy'n derbyn cymorth cyfreithiol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo defnyddio'r gwasanaeth hwn ar amseroedd addas, er enghraifft trwy ei gynnwys ar wefan Cymorth.com a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

4.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus

4.4.1 Mae ein Rheolydd Cyfathrebu yn sicrhau, pan fydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu ar gyfer y cyhoedd, bod cyfleusterau cyfieithu ar gael. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf cynhaliwyd Cyfarfod Ymgysylltu â Dinasyddion gan Bwyllgor Cymru y CLS oedd yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd ac roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael ac fe'i defnyddiwyd.

4.5 Rhai sy'n dod i'r swyddfa

4.5.1 Mae ein derbynfa yn parhau i gynnwys deunyddiau dwyieithog fel posteri a thafleini. Mae'r rhai sy'n galw heibio'r swyddfa hefyd yn cael gwybod trwy ein cyfarwyddiadau derbynfa (nid oes gennym dderbynnydd penodol erbyn hyn) pwy y dylent gysylltu ag ef/hi i gynnal yr ymweliad yn Gymraeg. Rydym hefyd yn defnyddio poster hyrwyddo Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn tanlinellu bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn y sector cyfiawnder.

5. HUNANIAETH GORFFORAETHOL Y SEFYDLIAD

5.1 Gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn ystod y cyfnod sefydlu cychwynnol yn union wedi i'r cynllun gael ei lansio. Ers hynny, mae unrhyw ddeunyddiau a gynhyrchwyd gan swyddfa Cymru yn ddwyieithog ac yn cynnwys logo Cymraeg a Saesneg y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.

6. CYHOEDDUSRWYDD

6.1 Cyhoeddiadau

6.1.1 Mae'r holl ddogfennau cyhoeddus sy'n deillio o Gymru yn parhau i gael eu cyhoeddi yn ddwyieithog ac mewn un ddogfen pan fydd hynny'n ymarferol. Er

enghraifft, yn ystod y cyfnod hwn cyhoeddodd tîm polisi Cymru ddogfen bolisi ddwyieithog ar y cyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru dan y teitl “Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realiaeth yng Nghymru” sydd wedi bod ar gael ar ein gwefan.

6.1.2 Mae cofnodion ac adroddiadau a gynhrychir yn dilyn cyfarfodydd a digwyddiadau Pwyllgor Cymru'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd ar gael yn ddwyieithog ar ein gwefan.

6.1.3 Pan fydd y gyllideb wedi caniatáu, rydym hefyd wedi cyfieithu dogfennau nad ydynt wedi eu hanelu yn benodol at y cyhoedd. Er enghraifft, anfonwyd llythyr at sefydliadau yn Chwefror 2008 parthed tynnu rhai safonau Nod Ansawdd yn ôl, a gyhoeddwyd yn ddwyieithog i ddarparwyr yng Nghymru.

6.1.4 Mae'r tîm Cyfathrebu canolog yn ymwneud â'r cyfarfodydd chwarterol a nodir ym mharagraff 3.1 a rhagwelir y bydd hyn yn parhau i godi proffil darparu cyhoeddiadau dwyieithog.

6.2 Gwefannau ar y Rhyngrwyd

6.2.1 Yn ystod y deuddeg mis diwethaf mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi gwneud newidiadau sylweddol i wefan y Comisiwn a gwefan Galw Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol. Mae'r cyntaf yn cynnwys tudalennau wedi eu cyfieithu yn llawn i'r Gymraeg oedd yn golygu llawer iawn o waith cyfieithu gan ein Rheolwr Cyfathrebu. Mae'r ail wedi ei ail frandio a'i alw yn awr yn “Cyngor Cyfreithiol Cymunedol” sydd hefyd wedi golygu gwaith sylweddol. Mae rhagor o waith yn ofynnol o hyd i'r safle olaf yn arbennig o ran y rhannau sy'n dal i ymddangos yn Saesneg ar y tudalennau Cymraeg. Bu gohebiaeth a chyfarfod rhwng Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, staff y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran symud hyn ymlaen ac mae cynllun gweithredu yn cael ei gynhyrchu i ymdrin â'r meysydd sy'n peri pryder.

6.2.2 Ystyrir rhagor o waith fel rhan o'r cyfarfodydd chwarterol gydag arweinwyr prosiect a phenaethiaid adrannau.

6.3 Hysbysiadau i'r Wasg a Hysbysebu

6.3.1 Ers gweithredu'r cynllun, mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu'n allanol yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog. Rydym hefyd wedi cymryd hysbyseb ddwyieithog hanner tudalen ar gyfer Cyngor Cyfreithiol Cymunedol sydd wedi ei roi yn y fersiwn rhanbarthol o'r Yellow Pages sy'n cael ei gyhoeddi yng Nghymru. Yn ychwanegol mae baneri Cymraeg a Saesneg wedi cael eu cynhyrchu a'u gosod yn ardal dderbyn gymunedol ein hadeilad, yn hyrwyddo Cyngor Cyfreithiol Cymunedol gan y byddai cleientiaid nifer o'r sefydliadau yn ein hadeilad yn gymwys ar gyfer y gwasanaethau y mae Cyngor Cyfreithiol Cymunedol yn eu cynnig. Yn ychwanegol, mae pecynnau gwybodaeth a anfonir i sefydliadau i hyrwyddo'r gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol hefyd wedi cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog yn ystod y cyfnod. Mae'r pecynnau hyn yn cynnwys taflen ffeithiau am y gwasanaeth, diffiniadau o'r

categoriâu o gyfraith sydd ar gael, taflenni gwybodaeth y gellir eu harchebu, posterï a ffurflen archebu - y cyfan yn ddwyieithog.

7. RECRIWTIO A STAFFIO

7.1 Mae'r gwersi Cymraeg wedi parhau yn y swyddfa ac ar hyn o bryd mae 16 aelod o staff yn eu dilyn. Mae hyn yn fwy na chwarter y staff a gyflogir gan y Comisiwn yng Nghaerdydd. Mae gan ddau aelod o staff blant ifanc sy'n mynychu ysgol gynradd Gymraeg ac felly maent yn gweld y gwersi yn ddefnyddiol iawn ar gyfer sgwrsio gyda'u plant a'u cynorthwyo gyda'u haddysg. Mae trydydd aelod o staff wedi dilyn cwrs Cymraeg allanol yn dilyn y gwersi a ddarparwyd yn y gwaith. Mae staff yn cael eu hannog hefyd i sgwrsio yn Gymraeg gan y tiwtor ar bob cyfle fel mewn dathliadau Dydd Gŵyl Dewi pryd y darparwyd blas ar gynnyrch a diwylliant Cymru a sgwrs. Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn y swyddfa yn sgwrsio yn gyson gyda'i gilydd yn Gymraeg ac mae hyn yn cael ei annog gan y Comisiwn hefyd. Yn ychwanegol mae'r staff sy'n siarad Cymraeg wedi cael rhaglenni Cysgeir a Cysill i'w cynorthwyo i gynhyrchu dogfennau Cymraeg.

7.2 O ran ein Strategaeth Recriwtio Iaith Gymraeg a Hyfforddi Ieithyddol (y mae copi ohoni yn Atodiad B), mae staff sy'n siarad Cymraeg yn yr holl rolau hanfodol y cyfeirir atynt. Ar hyn o bryd dim ond un aelod amser llawn o'r tîm Cyflawni Busnes sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, ond, gall siaradwyr Cymraeg eraill gyflawni'r rôl hon yn ôl y gofyn. Rydym hefyd ar hyn o bryd yn recriwtio gweithiwr achos Cymraeg ychwanegol i roi hwb arall i'n gwasanaeth yn y Gymraeg. O ran y rolau dymunol, mae dau reolwr perthynas sy'n siarad Cymraeg yn y swydd ar hyn o bryd ac mae trydydd fyddai'n medru gwneud y gwaith petai angen. Ac eithrio'r swydd Cyfarwyddwr Cymru, gallai'r Rheolwyr Perthynas presennol hefyd wneud swyddi eraill petai angen. Mae'r aelodau o staff sydd ar hyn o bryd yn gwneud y swyddi Archwilydd Contractio a chlerc apeliadau yn cymryd rhan mewn gwersi Cymraeg yn y swyddfa.

7.3 Fel nodwyd ym mharagraff 3.5, mae gweithiwr achos Cymraeg wedi cael ei benodi heb unrhyw broblemau trosglwyddo.

8. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

8.1 Mae'r gwaith o weithredu a monitro'r Cynllun yn parhau i gael ei wneud gan Swyddog Iaith Gymraeg yn gyson.

8.2 Yn ystod y deuddeng mis diwethaf dim ond tair cwyn a dderbyniwyd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Nid oedd aelod o staff newydd yn y swyddfa yn Lerpwl yn ymwybodol, pan fydd ffeil cyfreithiwr yn cynnwys dogfennau yn Gymraeg, y byddem yn talu cost unrhyw gyfieithu ar gyfer asesu'r gwaith oedd i'w wneud. Llwyddwyd i ddatrys hyn yn foddhaol o fewn y safon amser cwynion a rhoddwyd rhagor o hyfforddiant i staff yn Lerpwl.

- Derbyniwyd cwyn gan gyfreithiwr parthed yr oedi cyn darparu ffurflenni asesu modd dwyieithog yn dilyn y diweddariad yn Hydref 2007. Gweler paragraff 4.1 yn ymwneud â Ffurflenni. Mae hyn wedi ei ddatrys.
- Yn olaf, derbyniwyd cwyn trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg parthed tudalennau Cymraeg gwefan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol sy'n cynnwys rhywfaint o Saesneg. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae ar waith yn awr i ddatrys y problemau technegol dan sylw.

8.3 Mae'r Comisiwn wedi cymryd pob un o'r rhain yn ddifrifol iawn ac wedi gwella ein prosesau er mwyn ymdrin â'r problemau.

9. CRYNODEB

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd da dros y deuddeng mis diwethaf. Byddwn yn ceisio dangos rhagor o gynnydd dros y deuddeng mis nesaf a cheisio ein herio ein hunain ymhellach trwy gyflwyno cynllun diwygiedig ym Mawrth 2009 y byddwn yn ei lunio ar y cyd gydag unrhyw newidiadau i Ddeddf yr Iaith Gymraeg os bydd hynny'n briodol ar y pryd. Gwelir rhestr o'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd yn 2008/2009 yn Atodiad C. Rydym hefyd yn cydnabod bod gwaith y gallwn ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod gwasanaeth Cymraeg ar gael i'r cyhoedd a gwneir pob ymdrech i gyflawni hyn.

Atodiad A

Galwadau ffôn a Dderbyniwyd Ebrill 07-Mawrth 08

Mis	Nifer o alwadau
Ebrill	10
Mai	12
Mehefin	5
Gorffennaf	3
Awst	2
Medi	20
Hydref	27
Tachwedd	35
Rhagfyr	24
Ionawr	14
Chwefror	19
Mawrth	17
Cyfanswm	188

ATODIAD B

Strategaeth Recriwtio a Hyfforddi Ieithyddol yr Iaith Gymraeg

Mae'r ddogfen hon yn edrych ar yr ymrwymiad y cytunwyd arno i Ddeddf yr Iaith Gymraeg o ran ein harferion recriwtio a hyfforddi ieithyddol i rolau yn y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol - Cymru.

Recriwtio

Yn y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol – Cymru mae nifer o rolau y bydd medru siarad Gymraeg yn rhugl yn hanfodol, dymunol neu ddim yn hanfodol ar eu cyfer.

Wrth recriwtio ar gyfer y rolau hyn bydd hyn yn cael ei wneud yn glir yn yr holl hysbysebion recriwtio a bydd yn cael ei asesu fel rhan o'r broses ddewis. Ni fydd hyn yn cael effaith mewn unrhyw ffordd ar ein hymrwymiad i gyfle cyfartal fel y nodwyd yn y Polisi Cyflogaeth Cyfle Cyfartal.

Gwelir rhestr o'r swyddi ac a yw'r gallu i siarad Gymraeg yn rhugl yn hanfodol, dymunol neu ddim yn hanfodol yn Atodiad 1.

Hyfforddiant

Pan fydd gofyn siarad Gymraeg yn rhugl bydd hyn yn cael ei gefnogi'n llawn trwy hyfforddiant a datblygiad, wedi eu teilwrio ar gyfer anghenion yr unigolion dan sylw.

Bydd yr hyfforddiant a gynnigir mewn tri chategori:

Categori 1: Siaradwyr Gymraeg ar hyn o bryd

Bydd unrhyw staff sy'n siarad Gymraeg yn barod yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant gloywi a hyfforddiant mewn 'Cymraeg Busnes'.

Categori 2: Staff gyda gallu ieithyddol sylfaenol

Bydd staff sydd â chymhwyster sy'n cyfateb i TGAU yn y Gymraeg ac am ddysgu fel rhan o'u rôl (wedi i angen busnes gael ei bennu) yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant wedi ei strwythuro ac anffurfiol yn y Gymraeg ac yna Cymraeg Busnes.

Categori 3: Pawb arall sydd â diddordeb

Gall unrhyw staff arall sydd â diddordeb mewn dysgu ddefnyddio'r adnoddau dysgu'ch hunan a ddarperir yn y Parth Dysgu. Pan fydd amser yn cael ei dreulio ar hyn yn ystod oriau gwaith, rhaid cael cytundeb a sefydlu bod mantais i'r busnes ymlaen llaw.

Darparu Hyfforddiant

Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar y safle gan athrawon allanol ac yn cael ei gefnogi gan sesiynau grŵp dysgu anffurfiol pan fydd grwpiau o ddysgwyr Cymraeg yn cael cyfarfod i ymarfer eu sgiliau Cymraeg dros goffi, cinio ac ati. Gallant drefnu hyn eu hunain neu pan gytunir ar hynny gall siaradwr Cymraeg rhugl neu athro allanol eu trefnu, gan gadw o fewn y cyfyngiadau cyllidol.

Byddwn yn darparu cefnogaeth ariannol i aelodau o staff y mae'r iaith Gymraeg yn ofyn hanfodol. Ym mhob achos cynhelir dadansoddiad i gymharu mantais a chost. Bydd deunyddiau cefnogi hefyd yn cael eu prynu i gynorthwyo i ddatblygu sgiliau iaith.

Bydd sesiynau hyfforddi anffurfiol i staff yn swyddfa Cymru sy'n dymuno dysgu neu wella eu sgiliau presennol ar gael trwy drefniant gyda'r Rheolydd Adnoddau Dynol.

Bydd raid i staff gael cytundeb gan reolwyr llinell i fynychu gwersi Cymraeg pan fydd angen busnes wedi ei bennu.

Atodiad 1

Rolau lle mae Siarad Cymraeg yn Hanfodol

- Rheolwr Cyfathrebu
- Swyddog yr Iaith Gymraeg
- 1/2 Gweithwyr Achos Cyflawni Busnes
- 1 Clerc Apeliadau

Rolau lle mae Siarad Cymraeg yn Ddymunol

- Cyfarwyddwr Cymru
- Swyddog Polisi Cymru
- 1/2 Rheolwr Perthynas
- 1/2 Archwilwyr Cytundebu
- 1 Clerc Apeliadau

Rolau lle nad yw'n Hanfodol

- Rheolwr Adnoddau Dynol
- Dadansoddydd Cefnogi Busnes
- Tîm Cefnogi Cyflawni Busnes
- Tîm Cefnogi Swyddfa

ATODIAD C

CAMAU GWEITHREDU AR GYFER 2008/2009

Cam Gweithredu	Meini Prawf Llwyddiant	Dyddiad Gorffen	Person Cyfrifol	Diweddariad Chwarterol (RAG)
Adnewyddu'r Cynllun Iaith Gymraeg Mawrth 2009	Cynllun wedi ei ddiweddarau y cytunwyd arno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi ei gyhoeddi ym Mawrth 2009	Mawrth 2009	Rhian Davies (RD)/Paul Davies	Adolygu gyda Bwrdd yr Iaith Medi 08 a chytuno ar gamau i sicrhau bod y cynllun newydd yn barod ym Mawrth 09 pan fydd ein cynllun presennol yn dod i ben
Cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda budd-ddeiliaid allweddol	Gofynion y cynllun iaith Gymraeg yn cael eu hystyried gan arweinwyr prosiect a phenaethiaid adrannau yn y Comisiwn yn gyson. Camau addas yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r cynllun pan fydd prosiectau a mentrau newydd yn cael eu gweithredu.	Parhaus	RD	
Cyfarfodydd chwarterol gyda Bwrdd yr Iaith	I drafod unrhyw ddiwygiadau a gwelliannau i berfformiad.	Parhaus	RD	

Gymraeg	Er mwyn cytuno ar y cynllun newydd ar gyfer Mawrth 2009. Goblygiadau unrhyw newidiadau yn y dyfodol a allai gael effaith ar y cynllun (e.e. Deddf Iaith newydd). Bwydo unrhyw wybodaeth yn ôl i fudd-ddeiliaid allweddol fel sy'n briodol.			
Diweddariadau chwarterol ar gyfer y fewnwyd/rhyngwyd	Hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'r staff ac aelodau o'r cyhoedd.	Parhaus	RD	
Gohebiaeth post-gyfuno i ddarparwyr yng Nghymru am y gwasanaethau sydd ar gael	Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael. Cynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau.	Gorffennaf 2008 – Gogledd a Gorllewin Medi 09 i'r De a'r Canolbarth	RD	
Parhau i weithio ar y gwefannau i sicrhau eu bod yn hollol ddwyieithog	Gwefannau hollol ddwyieithog i gydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg.	Rhag 08	CLA, Tîm Cyfathrebu, Tîm Gwefannau	
Sefydlu proses ar gyfer ceisiadau sifil a dderbynnir yn Gymraeg i gysylltu budd-ddeiliaid eraill i'w hysbysu o ddewis iaith y cleient pan fydd hawl i wneud hynny dan ein darpariaethau cyfrinachedd	Bydd y cleientiaid yn derbyn gwasanaeth Cymraeg diwniad yn y system gyfiawnder sifil.	Awst 2008	RD	

